WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1780A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Helen Goddard a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl, mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae methiant i gyflawni o fewn y gyllideb na gwneud arbedion wedi'u cynllunio'n creu risg y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu dihysbyddu i lefel isel.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl, mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae methiant i gyflawni o fewn y gyllideb na gwneud arbedion wedi'u cynllunio'n creu risg y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu dihysbyddu i lefel isel 7

- Er bod cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn nodi'r diffygion rhagamcanol yn ei gyllideb, nid yw'n nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i wella'i gynaliadwyedd ariannol yn gyflym 7
- Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ac mae felly wedi defnyddio swm sylweddol o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r diffyg 8
- Mae angen i'r Cyngor adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd rheolaidd a fydd yn helpu i leihau'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig a hir 10
- Mae'r Cyngor yn gweithredu i gryfhau ei lefel isel o gronfeydd wrth gefn a gwella'i gydnerthedd ariannol i bwysau nas rhagwelwyd yn y gyllideb 11
- Mae gan y Cyngor gyfradd casglu'r dreth gyngor sy'n weddol isel ac a ostyngodd yn 2018-19 i'w lefel isaf ers 2011-12 13
- Mae lefel fenthyca a chostau llog y Cyngor yn gymharol isel ac nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau i ariannu gweithgareddau masnachol 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog.



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £120m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 2,600 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £260m**

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2018-19, papur gwaith costau staff 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19.




Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol CBSMT

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl, mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae methiant i gyflawni o fewn y gyllideb na gwneud arbedion wedi'u cynllunio'n creu risg y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu dihysbyddu i lefel isel. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn nodi'r diffygion rhagamcanol yn ei gyllideb, nid yw'n nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i wella'i gynaliadwyedd ariannol yn gyflym;

- mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ac mae felly wedi defnyddio swm sylweddol o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r diffyg;
- mae angen i'r Cyngor adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd rheolaidd a fydd yn helpu i leihau'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig a hir;
- mae'r Cyngor yn gweithredu i gryfhau ei lefel isel o gronfeydd wrth gefn a gwella'i gydnerthedd ariannol i bwysau nas rhagwelwyd yn y gyllideb;
- mae gan y Cyngor gyfradd casglu'r dreth gyngor sy'n weddol isel ac a ostyngodd yn 2018-19 i'w lefel isaf ers 2011-12; ac
- mae lefel fenthyca a chostau llog y Cyngor yn gymharol isel ac nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau i ariannu gweithgareddau masnachol.

# Adroddiad manwl

## Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl, mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae methiant i gyflawni o fewn y gyllideb na gwneud arbedion wedi'u cynllunio'n creu risg y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu dihysbyddu i lefel isel

### Er bod cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn nodi'r diffygion rhagamcanol yn ei gyllideb, nid yw'n nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i wella'i gynaliadwyedd ariannol yn gyflym

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Mae'n dra hysbys bod y Cyngor wedi profi anawsterau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.[1]

8 Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 yn seiliedig ar amcanestyniadau a thybiaethau rhesymol ar y pryd.

9 Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn ôl y sefyllfa ym mis Mawrth 2019, yn rhagamcanu diffyg yn 2020-21 o £8.1 miliwn, a oedd yn ddigynsail i'r Cyngor. Roedd y diffyg cronnol rhagamcanol ar y pryd ar gyfer y cyfnod o dair blynedd hyd at 2022-23 yn £15.0 miliwn.

10 Ym mis Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.8% yng ngrant cynnal refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae adroddiad y Cabinet ym mis Ionawr 2020 ar Gyllideb Refeniw 2020-21 yn nodi bod y cynnydd hwn, i raddau helaeth, wedi cyfrannu at y gostyngiad yn niffyg rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2020-21 i sero o £8.1 miliwn.


[1] Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 gan gynnwys Llythyr Archwilio Blynyddol 2017-18 ar dudalen 18 ac Adroddiad Cwmpasu Ymgynghorydd Allanol Medi 2019

11 Mae ffocws y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn bennaf ar bennu'r gyllideb flynyddol ac mae angen i'r Cyngor ystyried sut y mae'n mynd i gau'r bwlch yn ei gyllideb yn y tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei gynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

12 Mae'r Cyngor wedi gweithredu ac mae'n parhau i archwilio opsiynau i wella'i gydnerthedd ariannol. Mae ffocws mentrau a ffrydiau gwaith cynaliadwyedd a oedd wedi'u bwriadu i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb wedi cael ei ailbennu ac maent felly yng nghyfnod cynnar eu datblygiad. Roedd yr ymgynghorydd allanol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn haf 2019 o'r farn bod gormod o ffrydiau gwaith i'r capasiti presennol yn y Cyngor ganolbwyntio arnynt ac maent wedi cael eu symleiddio ychydig ers hynny.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2022-23. Nid yw'r ffigwr ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu'r ffigwr wedi'i ddiweddaru yn dilyn y setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019.




Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-21 i 2022-23 Mawrth 2019

## Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ac mae felly wedi defnyddio swm sylweddol o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r diffyg

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

13 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer.

Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

14 Mae perfformiad ariannol cyffredinol y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn amrywio. Yn 2017-18 roedd gan y Cyngor warged annisgwyl o £1.3 miliwn, yn bennaf oherwydd tanwariant yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol (sefydliadau preswyl annibynnol). Yn 2018-19 roedd diffyg o £0.6 miliwn, gyda gorwariant sylweddol o £1.4 miliwn yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ffigyrau hyn ar ôl cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn, a oedd yn £1.4 miliwn yn 2017-18 ac yn £1.9 miliwn yn 2018-19.

15 Ceir tuedd ar gyfer costau uwch yn y Gwasanaeth Addysg ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Fe arweiniodd pwysau parhaus o ran costau a galwadau mwy am y ddau sector gwasanaeth hwn ar eu pennau eu hunain at gymeradwyo cyllid ychwanegol cyfunol o oddeutu £5.4 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £114.8m | £113.5m | Gwarged o £1.3m | Gwarged o 1.1% |
| 2018-19 | £117.5m | £118.0m | Tanwariant o £0.5m | Gorwariant o 0.4% |
| 2019-20 | £120.3m | £118.6m[2] | Gwarged o £1.7m[3] | Gwarged o 1.4% |

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol CBSMT, Monitro'r gyllideb refeniw 2019-20 chwarter 3

## Mae angen i'r Cyngor adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd rheolaidd a fydd yn helpu i leihau'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig a hir

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

16 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

[2] Y ffigwr hwn yw'r alldro a ragwelir o ran y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019.

[3] O ran y sefyllfa ar 30 Medi 2019, roedd gorwariant o £0.1 miliwn yn cael ei ragweld.

### Yr hyn a ganfuom

17 Er bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion, mae maint ei ddiffygion ariannol yn ei gwneud yn anodd mantoli'r cyfrifon mewn modd cynaliadwy.

18 Ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 (rhagamcanol) mae'r Cyngor wedi cyflawni oddeutu 94% o'i arbedion wedi'u cynllunio. Mae'r arbedion hyn wedi bod yn seiliedig yn bennaf ar doriadau yng nghyllidebau gwasanaethau, gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn eu cofnodi fel arbedion tybiedig yn y cyfrifiad o'r diffygion yn y gyllideb. Fodd bynnag, nid arbedion o'r fath, ynddynt eu hunain, yw'r ateb i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig a hir.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£2.8m** | **£2.7m** | **£0.1m** | **96.4%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Rhaglen Newid a Llesiant Chwarter 4 2018-19

## Mae'r Cyngor yn gweithredu i gryfhau ei lefel isel o gronfeydd wrth gefn a gwella'i gydnerthedd ariannol i bwysau nas rhagwelwyd yn y gyllideb

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

19 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

20 Roedd y Cyngor yn dal £12.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2019.

21 Mae Polisi Cronfeydd wrth Gefn Corfforaethol y Cyngor yn datgan y dylai cronfeydd wrth gefn cyffredinol aros rhwng 3.5% a 4% o wariant refeniw net cyllideb flynyddol y Cyngor.

22 Ar gyfer 2018-19 defnyddiodd y Cyngor £1.9 miliwn o'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel a gyllidebwyd, nid oedd unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ar gyfer 2019-20 fe gyllidebodd y Cyngor yn wreiddiol i ddefnyddio £1.8 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u clustnodi a £0.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, a fyddai wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol i derfyn isaf ei bolisi Cronfeydd wrth Gefn Corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r alldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2019-20 yn cynnwys unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, gyda'r defnydd o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u clustnodi'n gostwng i £0.6 miliwn.

23 Fodd bynnag, mae'r rhagolygon diweddaraf yn ystod y flwyddyn yn dynodi na fydd angen i'r Cyngor ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn i'r graddau a ragwelwyd yn wreiddiol yn 2019-20 ac y gallai dyfu ei gronfeydd wrth gefn a dweud y gwir.


24 Ar 10 Rhagfyr 2019, fe gymeradwyodd Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed ailddosbarthiad untro o £1.5 miliwn o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r Cyngor yn ôl rhaniad cyfrannol o 52%/48%. Fe achosodd hyn i'r Cyngor gael dosbarthiad untro o £0.7 miliwn yn 2019-20 a dosbarthiad blynyddol rheolaidd amcangyfrifedig o oddeutu £350,000 i'r Cynghorau yn ôl yr un gyfran.

25 O dan ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i awdurdodau lleol godi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar eu cyfrif refeniw ar gyfer pob blwyddyn ariannol i roi cyfrif am gost eu dyled yn y flwyddyn ariannol honno. Ar 18 Rhagfyr 2019, fe gymeradwyodd y Cyngor ddiwygiad i'w bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar godi darpariaeth fwy darbodus ar y cyfrif refeniw, gan arwain at arbediad cyllidebol sylweddol ar gyfer 2019-20 o £0.9 miliwn, ac oddeutu £0.8 miliwn dros y tymor canolig.

26 O fewn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23, roedd y Cyngor yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn o £0.8 miliwn yn 2020-21, gyda dim y tu hwnt i hynny. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn diwygio'i Gynllun Tymor Canolig Integredig i ystyried y setliad dros dro diweddar gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael gwared ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2020-21. Mae adroddiad y Cabinet ym mis Ionawr 2020 ar Gyllideb Refeniw 2020-21 yn nodi bod y cyngor yn bwriadu cyfrannu £300,000 i'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol yn 2020-21; bydd hyn yn cynyddu cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i £5.0 miliwn.

Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| £117m | £12.6m | 11% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol CBSMT

## Mae gan y Cyngor gyfradd casglu'r dreth gyngor sy'n weddol isel ac a ostyngodd yn 2018-19 i'w lefel isaf ers 2011-12

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

27 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

28 Yn 2018-19 roedd cyfradd casglu treth gyngor y Cyngor yn 95.5%, sef ei lefel casglu isaf ers 2011-12 ac mae islaw'r cyfartaledd o 96.1% ar gyfer y tair blynedd cyn hynny.

29 Roedd y cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2019-20 yn 5.99%, sy'n uwch na'r cynnydd o 4.15% ar gyfer 2018-19. Tybir y gyfradd o 5.99% dros dymor Cynllun Ariannol Tymor Canolig Mawrth 2019.

### Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19.



Roedd yr incwm a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£25.5m** (95.5%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£26.7m**

Ffynhonnell: Adroddiad system Northgate, 31 Mawrth 2019

## Mae lefel fenthyca a chostau llog y Cyngor yn gymharol isel ac nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau i ariannu gweithgareddau masnachol

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

30 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

31 O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd benthyciadau'r Cyngor mewn termau gros yn is nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru, ond nid oedd hyn yn annisgwyl o ystyried maint y Cyngor. Roedd benthyciadau o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn £48.9 miliwn ac roedd y benthyciadau Opsiwn Rhoi a Chymryd Benthyg (LOBO) yn gyfanswm o £12.0 miliwn. Roedd y costau cyllido cyfalaf i ad-dalu'r ddyled hon yn £7.0 miliwn yn 2018-19.

32 Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynyddu ei ddibyniaeth ar fenthyca digymorth i gefnogi ei raglen cyfalaf.

33 Bydd y newid yn y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (gweler paragraff 25 uchod) yn arwain at gynnydd llai mewn costau cyllido cyfalaf dros y tymor byr a chanolig.

34 Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau i ariannu gweithgareddau masnachol. Rydym yn deall y bydd y Cyngor yn archwilio cyfleoedd i gynyddu'r incwm y mae'n ei greu, a allai gynnwys gweithgareddau masnachol.


### Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**6.0%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol CBSMT

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru